**CYFARFOD ARBENNIG Y CYNGOR** a gynhaliwyd yn hybrid nos Fercher, 21 Mehefin 2023, yn dechrau am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Ms J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Clerc y Dref

**19. YMDDIHEURIADAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**20. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

**21. RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS Y RHYL**

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2023, cyfeiriodd y Maer at adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) a gofynnodd am gadarnhad ffurfiol y penderfyniad i ddyfarnu teitl Rhyddfreiniwr Anrhydeddus y Rhyl i'r cyn Gynghorydd Tref, Mrs Patricia Margaret Jones.

Rhoddwyd y cynnig i bleidlais a ***PHENDERFYNWYD*** *yn unfrydol gymeradwyo'r dyfarniad a rhoi polisi'r Cyngor o'r neilltu ar yr achlysur hwn i alluogi gwneud y dyfarniad yn y cyfarfod hwn a chyflwyno'r dyfarniad mewn digwyddiad preifat i'w gynnal nos yfory i ddynodi ymddeoliad Mrs Jones o'r Cyngor Tref.*

**[Datganodd y Cynghorydd Ms V. Roberts fuddiant personol yn yr eitem uchod gan eu bod yn perthyn o bell a gadawodd y cyfarfod ac ni chymrodd ran yn y trafodaethau na'r pleidleisio ar yr eitem]**

**22. DIWEDD Y CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Maer bod y cyfarfod wedi diweddu.

Y Maer: …….…………………..

Dyddiad: …..……………………..